

Ymateb i ymgynghoriad gan Iechyd Cyhoeddus Cymru

Cyllideb Llywodraeth Cymru 2023-24

Mae'n bleser gan Iechyd Cyhoeddus Cymru ddarparu'r cyflwyniad ysgrifenedig hwn i [ymgynghoriad](#) y Pwyllgor Cyllid i lywio eu gwaith craffu ar gynigion Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2023-24.

Question 2: Sut y dylai/gallai Llywodraeth Cymru gefnogi'r economi a busnes yn dilyn y pandemig, Brexit a chwyddiant a phwysau economaidd eraill?

Mae'r argyfwng costau byw, yn ogystal a'r '[her driphlyg](#)' o Brexit, Covid-19 a'r newid yn yr hinsawdd, yn cael effeithiau eang a hirdymor ar fywydau beunyddiol pobl yng Nghymru. Mae'r effeithiau ar iechyd a llesiant yn ymestyn drwy gydol bywydau pobl ac yn trosglwyddo ar draws y cenedlaethau. Mae hyn yn creu **her hirdymor i systemau a'r gwasanaethau** yng Nghymru.

Dylid felly ystyried y gefnogaeth a ddarperir i fusnesau a'r economi yng nghyd-destun yr **heriau olynol i iechyd a llesiant yng Nghymru**, yn y gorffennol ac yn y dyfodol, gan gynnwys y pandemig [COVID-19](#), [pwysau ar y gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol](#), [ymadawiad y DU â'r Undeb Ewropeaidd](#), [polisiau cyni](#), gwaddol o [gartrefi o ansawdd gwael](#), [nad ydynt yn effeithlon o ran ynni](#), [y newid yn yr hinsawdd](#), y rhyfel yn Wcrain a'r [gaeaf](#) sydd i ddod.

Mae'r effeithiau hyn yn amlochrog, ddim yn statig, ac maent yn debygol o effeithio ar Gymru yn y tymor byr ac yn y tymor hwy. Fel y pandemig, daw'r argyfwng costau byw i ychwanegu at dlodi hirsefydlog yng Nghymru, a chanlyniadau iechyd gwael cysylltiedig.

Buddsoddi mewn iechyd a llesiant yw'r peth iawn i'w wneud – mae'n achub bywydau ac yn arbed arian ac yn arwain at fanteision lluosog. Mae tystiolaeth sylweddol yn dangos ei bod yn [well yn ariannol i systemau atal, yn hytrach na thrin, afiechyd](#). Hynny yw, dangosir yn glir bod ymyriadau iechyd cyhoeddus yn arbed costau i wasanaethau iechyd yn ogystal â'r economi ehangach. Ar gyfartaledd, [am bob £1 a fuddsoddir mewn iechyd cyhoeddus, mae £14 yn cael ei ddychwelyd i'r gwasanaethau iechyd neu'r system ehangach](#).

Mae buddsoddiad (neu ddadffuddsoddiad) mewn unrhyw un o'r meysydd cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol eang sy'n pennu iechyd y boblogaeth (a elwir yn '[penderfynyddion iechyd ehangach](#)') hefyd yn cael effaith iechyd a llesiant.

Byddai cymdeithas sy'n canolbwyntio'n llwyr ar alluogi iechyd a llesiant hefyd yn rhoi blaenoriaeth i lesiant yn ei phenderfyniadau economaidd – '[Economi Llesiant](#)'.

Question 3: Gyda chwyddiant a materion costau byw yn parhau i gynyddu, pa gamau y dylai Llywodraeth Cymru eu cymryd i helpu aelwydydd i ymdopi â'r argyfwng diweddaraf hwn?

Nid gwasgfa economaidd dros dro yn unig yw'r argyfwng costau byw presennol: mae'n **fater iechyd cyhoeddus hirdymor** a fydd yn cael effeithiau negyddol ar iechyd a llesiant poblogaeth Cymru nawr ac yn y dyfodol.

Mae'r argyfwng costau byw yn gofyn am **ymateb brys gan y maes iechyd cyhoeddus** er mwyn:

- 1) Cydnabod y **bygythiad uniongyrchol** y mae'r argyfwng costau byw yn ei achosi i iechyd a llesiant, gan ganolbwyntio mwy ar **gefnogi'r rhai a fydd yn cael eu taro galetaf; a**
- 2) Blaenoriaethu **camau gweithredu ataliol**: mae effeithiau negyddol digwyddiadau fel yr argyfwng costau byw – a'r pandemig COVID-19 cyn hynny – yn arwyddocaol iawn oherwydd eu bod yn rhoi pwysau ar wendidau presennol, sef tlodi ac annhegwch hirsefydlog yng Nghymru. Bydd mynd i'r afael ag achosion sylfaenol y rhain yn creu cymdeithas iachach a mwy cyfartal ac, felly, un sy'n fwy gwydn i ymdopi â heriau'r dyfodol.

Yn y **tymor byr** mae hyn yn cynnwys:

- Canolbwyntio ar gymorth ar gyfer iechyd a llesiant meddyliol;
- Cynyddu incwm i'r eithaf (gan gynnwys cymorth penodol ar gyfer ynni, tai a bwyd) a chymorth gygda dyledion;
- Ymdrechion i leihau tlodi tanwydd ac effaith cartrefi oer, atal digartrefedd, hyrwyddo bwyta'n iach, sicrhau mynediad teg i wasanaethau cyhoeddus a diogelu rhag ynysu cymdeithasol;
- Cyflogwyr yn cefnogi staff, gan gynnwys rheoli diswyddiadau yn ofalus;
- Rhanddeiliaid systemau iechyd a gofal yn paratoi ar gyfer pwysau'r gaeaf; a
- Diogelu rhag risg cynyddol o drais a cham-drin domestig.

Yn y **tymor canolig/tymor hwy** mae hyn yn cynnwys:

- Mesurau effeithlonrwydd ynni a newid i ddefnyddio ynni gwyrdd, fforddiadwy;
- Gwella argaeledd, fforddiadwyedd ac ansawdd tai;
- Datblygu systemau bwyd lleol iach a chynaliadwy;
- Annog teithio llesol, carbon isel a'r defnydd o drafnidiaeth gyhoeddus;
- Hyrwyddo gwaith teg;
- Mentrau atal trais;
- Gwella'r cymorth i rieni i fynd i'r afael â ffactorau cyffredin sy'n creu straen i'r teulu.

Er mwyn creu Cymru iachach a mwy cyfartal yn y **tymor hwy**, mae hyn yn cynnwys:

- Gweithredu deddfwriaeth alluogi er mwyn prif ffrydio'r ystyriaeth o iechyd, llesiant a thegwch ym mhob polisi ('iechyd ym mhob polisi');
- Creu cymdeithasau a chymunedau sy'n cefnogi iechyd, gan gynnwys: meithrin cymunedau cadarn, cydlyniant a chyfalaf cymdeithasol; hybu ymddygiad iach; a chreu 'Economi Llesiant'; a
- Mabwysiadu dull cwrs bywyd sy'n canolbwyntio ar y blynyddoedd cynnar.

Ceir rhagor o fanylion am ddull iechyd cyhoeddus o ymdrin a'r argyfwng costau byw yn adroddiad Iechyd Cyhoeddus Cymru ['Yr argyfwng costau byw yng Nghymru: Drwy lens iechyd cyhoeddus'](#).

Question 3a: Sut y dylai'r Gyllideb fynd i'r afael ag anghenion pobl sy'n byw mewn cymunedau trefol, ôl-ddiwydiannol a gwledig ac wrth gefnogi economïau o fewn y cymunedau hynny?

Mae cymunedau trefol, ôl-ddiwydiannol a gwledig yn cael eu heffeithio gan Brexit, Covid-19 a'r newid yn yr hinsawdd (yr ['her driphlyg'](#)), a'r argyfwng costau byw, mewn myrdd o wahanol ffyrdd cydgysylltiedig a chymhleth a fydd yn effeithio ar iechyd a llesiant pobl sy'n byw yn y cymunedau hynny. Mae rhai ohonynt yr un fath, ond eraill yn [fwy penodol](#). **Mae angen ystyried yn ofalus y ffactorau sy'n arwain at effeithiau gwahanol ar wahanol bobl os yw'r Gyllideb i fynd i'r afael ag anghenion pawb sy'n byw yng Nghymru.**

Cymunedau ôl-ddiwydiannol

Caiff diweithdra effeithiau sy'n niweidio iechyd meddwl a llesiant yn sylweddol, ac amlygodd [tystiolaeth a oedd yn canolbwyntio ar ddirwasgiad 2008](#) ansicrwydd ariannol ac ansicrwydd o ran swyddi a diweithdra fel ffactorau risg mawr ar gyfer salwch meddwl, marwolaeth yn sgil hunanladdiad, camddefnyddio sylweddau ac diffyg diogeledd bwyd. **Mae colli swyddi hefyd cael effaith negyddol ar [iechyd corfforol unigolion](#)**, gan gynnwys trwy gynyddu ymddygiadau nad yw'n iach, fel smygu ac yfed. Mae hyn yn arwain at risg uwch o farwolaeth yn sgil hunanladdiad, clefydau sy'n gysylltiedig ag alcohol, trawiad ar y galon a strôc.

Mewn perthynas â [chyflogaeth](#), mae dystiolaeth yn awgrymu mai trefi arfordirol a chyn-ddiwydiannol oedd yn y perygl mwyaf ac yr effeithiwyd arnynt yn anghymesur gan y pandemig. Mae gan Gymru lawer o drefi cyn-ddiwydiannol, yn enwedig y Cymoedd yn y De Ddwyrain. Mae'r awdurdodau lleol, y nodwyd bod ganddynt y [nifer fwyaf o weithwyr mewn diwydiannau sydd mewn perygl](#), hefyd yn gartref i rai o ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru yn ôl Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru.

Gyda chymorth a buddsoddiad, gall ardaloedd â phrinder llafur neu sgiliau ddod yn lleoedd sy'n cynnig [cyfleoedd](#) cyflogaeth a hyfforddiant newydd. **Mae cyfle i'r Gyllideb fuddsoddi mewn cymunedau ôl-ddiwydiannol yng Nghymru er mwyn creu cyfleoedd cyflogaeth a hyfforddiant, ac o ganlyniad, gwell iechyd a llesiant.**

Cymunedau gwledig

Mae dystiolaeth yn awgrymu bod **cymunedau gwledig yng Nghymru yn cael eu taro'n galetach** gan y cynnydd yng nghostau ynni, tai a thrafnidiaeth o gymharu â'r rhai sy'n byw mewn trefi a dinasoedd. Mae hyn yn golygu eu bod yn **fwy tebygol o brofi canlyniadau iechyd a lles gwael** o ganlyniad i'r ffactorau hyn.

Mae'r risg uwch yn rhannol oherwydd bod [mwy o ddibyniaeth ar geir](#). Yn ogystal, mae cartrefi mewn ardaloedd gwledig yn fwy tebygol o ddefnyddio [olew neu Nwy Petrolewm Hylifedig \(LPG\)](#) fel eu prif danwydd ar gyfer gwresogi, sy'n ddrutach, sy'n [cynyddu mewn pris](#), ac nid yw'n dod o dan gap prisiau Ofgem na [Gwarant Pris Ynni Llywodraeth y DU](#). Ni fydd cartrefi nad ydynt ar y grid yn cael y [taliad cymorth ar gyfer biliau ynni o £400](#) chwaith.

Mae'r ['her driphlyg'](#) o Brexit, COVID-19 a'r newid yn yr hinsawdd yn gwaethygu – a bydd yn parhau i waethygu – y straen economaidd a effeithir cymunedau gwledig sy'n deillio o'r argyfwng costau byw. Gall hwn arwain at fwy o ansicrwydd economaidd a phryder am swyddi mewn ardaloedd gwledig, gan arwain at fwy o effaith negyddol ar iechyd meddwl a llesiant. Mae hwn oherwydd bod gan gymunedau gwledig yng Nghymru [lefelau uwch na'r cyfartaledd o hunangyflogaeth](#) a chyflogaeth ran-amser. Hefyd, mae bron i hanner (44%) busnesau bach a

chanolig (gyda llai na 250 o weithwyr) wedi'u lleoli mewn [lleoliadau gwledig](#) yng Nghymru, a'r mathau hyn o fusnesau sydd [fwyaf agored i niwed](#) oherwydd costau cynyddol.

Nododd [ymchwil a gynhaliwyd gyda chymunedau ffermio gan Iechyd Cyhoeddus Cymru](#) fod ansefydlogrwydd ariannol, ansicrwydd, heriau wrth gynllunio ar gyfer olyniaeth, a diffyg ymdeimlad o reolaeth yn ffynonellau sylweddol o straen a gofid i ffermwyr a'u teuluoedd. Er bod Brexit wedi amlygu'r pryderon hyn, bydd y wasgfa costau byw yn gwaethygu'r adfyd sy'n wynebu ffermwyr mewn cymunedau gwledig ymhellach. Pryderon ariannol, gan gynnwys dyled, yw un o'r [heriau mwyaf i lesiant meddyliol](#).

Nodwyd bod darparwyr y GIG mewn cymunedau gwledig yn [fwy tebygol o fod wedi profi problemau gwaeth gyda'r gweithlu](#) a sefyllfaoedd ariannol gwaeth yn ystod y pandemig. Bydd hyn yn cael ei effeithio ymhellach gan y wasgfa costau byw, a gall fod yn destun gofid penodol mewn ardaloedd gwledig ble mae darparu gwasanaethau iechyd yn gysylltiedig â [chostau uwch](#) oherwydd heriau mewn cyflawni arbedion maint, ac yr angen am gyfradd uwch o staff i ddarparu gwasanaethau iechyd a gofal.

Os taw bwriad y Gyllideb yw i gael gafael ar dlodi a chefnogi pawb yng Nghymru sy'n ei brofiadu, bydd rhaid ystyried [natur 'gudd' tlodi gwledig](#), nad yw'n hawdd ei gynnwys mewn rhaglenni â ffocws daearyddol, lle mae cymhwysra wedi'i ddiffinio gan Fynegai Amddifadedd Lluosog Cymru.

Yn yr un modd, **mae angen i'r Gyllideb gydnabod cyd-destun penodol ardaloedd gwledig**, boed hynny'n fuddsoddiad sydd wedi'i anelu at gefnogi pobl yng Nghymru drwy'r argyfwng costau byw; cynyddu cyfleoedd cyflogaeth; cefnogi busnesau bach a'r hunangyflogedig (gan gynnwys ffermwyr); gwella mynediad at wasanaethau iechyd a gofal; neu ymateb i newid hinsawdd. Bydd hyn yn sicrhau y gall pobl sy'n byw ledled Cymru elwa'n gyfartal o'r cymorth, gyda manteision dilynol i iechyd a llesiant.

Question 4: A yw cynlluniau Llywodraeth Cymru i adeiladu economi wyrddach yn glir ac yn ddigon uchelgeisiol? A ydych chi'n meddwl bod digon o fuddsoddiad yn cael ei dargedu at fynd i'r afael â'r argyfwng newid hinsawdd a natur? A oes unrhyw fyllchau sgiliau posibl y mae angen mynd i'r afael â nhw er mwyn cyflawni'r cynlluniau hyn?

Mae'r argyfwng newid hinsawdd a natur yn faterion iechyd cyhoeddus: mae'n fgyrthiad sylweddol i iechyd meddwl, corfforol a llesiant.

Mae Pwyllgor Newid Hinsawdd y DU wedi [datgan yn glir](#): "Mae camau i wella cydnherthedd y genedl yn methu â chadw i fyny ag effeithiau twymo byd-eang a'r risgiau hinsawdd cynyddol sy'n wynebu'r DU".

Amlygodd [Aseiad Risg Newid Hinsawdd](#) diweddaraf y DU a Chymru yr angen am weithredu brys yn y ddwy flynedd nesaf ar flaenoriaethau addasu allweddol. Mae angen y rhain i ddiogelu iechyd a lles y boblogaeth rhag:

- methiant yn ymwneud â'r hinsawdd yn y system bŵer;
- mwy o amlygiad i wres mewn cartrefi ac adeiladau eraill; a
- risgiau i gyflenwad bwyd, nwyddau a gwasanaethau hanfodol oherwydd cwymp cadwyni cyflenwi a rhwydweithiau dosbarthu oherwydd hinsawdd.

Yn ogystal, amlygodd [Aseiad Risg Newid Hinsawdd](#) Cymru (2021) yr angen am fwy o weithredu i:

- amddiffyn iechyd pobl a chymunedau rhag gwres a llifogydd;

- hyrwyddo a diogelu iechyd a lles cymunedau arfordirol; a
- sicrhau cydnerthedd gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.

Mae arolwg diweddar a gynhaliwyd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru gyda staff cyrff cyhoeddus yng Nghymru (heb ei gyhoeddi eto) wedi nodi bylchau sgiliau a hyder wrth weithredu ar effeithiau newid hinsawdd ar iechyd a llesiant.

Mae Llywodraeth Cymru wedi gwneud ymrwymiadau uchelgeisiol i fynd i'r afael ag argyfwng newid hinsawdd a natur drwy amryw o strategaethau a chynlluniau, ond mae'n hanfodol bod y cynlluniau hyn yn ystyried pa effeithiau y mae'r argyfyngau hyn, a'r camau a gymerwyd i ymateb iddynt, yn eu cael ar [iechyd a llesiant](#) y boblogaeth. Byddai cymorth a buddsoddiad ychwanegol yn galluogi Llywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus i wneud hyn. Bydd defnyddio methodoleg [Asesu'r Effaith ar Iechyd](#) i lywio buddsoddiad mewn addasu, lliniaru a datgarboneiddio yn sicrhau bod buddion iechyd yn cael eu huchafu a bod unrhyw ganlyniadau anfwriadol ar gyfer iechyd a lles yn cael eu hatal neu eu lliniaru. Mae enghreifftiau o ganlyniadau anfwriadol yn cynnwys gorboethi mewn cartrefi/adeiladau yn dilyn mesurau effeithlonrwydd ynni.

Mae angen mwy o fuddsoddiad hefyd ar gyfer **ymyriadau ataliol hirdymor** a all gael effaith gadarnhaol ar hinsawdd a natur, yn ogystal â'r blociau adeiladu sydd eu hangen ar gyfer bywyd iach, megis tai a theithio (a elwir yn 'penderfynyddion iechyd ehangach).

Bydd buddsoddi mewn mesurau fel effeithlonrwydd ynni cartrefi yn arwain at nifer o gyd-fuddiannau iechyd, yn ogystal â lleihau tlodi tanwydd a lleddfu pwysau costau byw. Bydd buddsoddi mewn seilwaith teithio llesol a thrafnidiaeth gyhoeddus hefyd yn sicrhau cyd-fuddiannau iechyd megis lleihau llygredd aer a gwella gweithgarwch corfforol.

Byddai rhaglenni buddsoddi cyfalaf mewn effeithlonrwydd ynni yn elwa o wariant ar gyngor a chymorth ar gyfer newid ymddygiad i alluogi deiliaid tai i fabwysiadu technolegau a systemau gwresogi newydd yn effeithiol, gan wneud y mwyaf o [werth](#) y buddsoddiad hwn.

Question 7: Hoffai'r Pwyllgor ganolbwyntio ar nifer o feysydd penodol eraill wrth graffu ar y Gyllideb. A oes gennych unrhyw sylwadau penodol ar unrhyw un o'r meysydd a nodir isod?

Question 7a: Polisiâu Llywodraeth Cymru i leihau tlodi ac anghydraddoldeb rhwng y rhywiau. A oes digon o gymorth yn cael ei roi i'r bobl hynny sy'n byw mewn tlodi incwm cymharol?

Y rhai sydd eisoes yn byw mewn tlodi incwm cymharol yw'r rhai sy'n cael (ac a fydd yn cael) eu [taro waethaf](#) gan yr argyfwng costau byw. Fwy tebygol o fod mewn tlodi incwm cymharol, gan gynnwys [menywod](#). Mae [data](#) diweddar yn dangos bod y grwpiau hyn yn fwy tebygol o'i chael hi'n anodd fforddio eu taliadau ynni, rhent neu forgais, neu eu bod ar eu hôl hi gyda'r taliadau hyn, oherwydd yr argyfwng costau byw.

Drwy gynyddu maint a difrifoldeb tlodi yng Nghymru, mae'r argyfwng costau byw wedi cynyddu maint a difrifoldeb iechyd a llesiant gwael, a bydd yn parhau i wneud hynny. Hynny yw, **mae anghenion iechyd y grwpiau â'r amddifadedd mwyaf yn debygol o gynyddu ymhellach**, ac ar yr un pryd, **mae mwy o bobl yn debygol o weld bod eu sefyllfa ariannol yn dechrau cael effaith negyddol ar eu hiechyd** am y tro cyntaf

Mae'r ffaith bod yr argyfwng costau byw yn cael effaith fwy ar y rhai yn yr ardaloedd â'r amddifadedd mwyaf yn golygu y **bydd yr argyfwng costau byw yn cynyddu anghydraddoldeb iechyd yng Nghymru** – fodd bynnag, mae'n bwysig cofio bod yr argyfwng yn debygol o effeithio ar y rhan fwyaf o bobl yng Nghymru.

Dylai'r Gyllideb gydnabod bod llawer o'r mathau o hunaniaeth sy'n golygu bod pobl yn fwy tebygol o fyw mewn tldi incwm cymharol yn [gorgyffwrdd](#). Hynny yw, mae hunaniaeth luosog a hunaniaeth sy'n gorgyffwrdd yn dod ynghyd i gyfrannu at brofiad cyffredinol (a chymhleth) o anfantais. Er enghraifft, mae menywod yn fwy tebygol na dynion o ennill [incwm isel](#). Menywod hefyd yw mwyafrif y [rhieni unigol](#) – y math o deulu sydd [fwyaf tebygol o fod yn byw mewn tldi cymharol](#) yng Nghymru – gydag aelwydydd benywaidd sengl yn wynebu costau sydd [un gwaith a hanner yn uwch](#) nag aelwydydd gwrywaidd sengl fel cyfran o incwm. Mae'r argyfwng costau byw yn debygol o gael [effaith fwy difrifol](#) byth ar fenywod ethnig lleiafrifol a/neu fenywod anabl.

Felly, er y dylai'r Gyllideb ganolbwyntio ar leihau anghydraddoldebau rhwng gwahanol grwpiau a thargedu cymorth at y rhai sydd â'r angen mwyaf, bydd **deall anfanteision lluosog a gorgyffwrdd pobl (a'u hachosion sylfaenol) yn hanfodol** i leihau tldi a mathau eraill o anghydraddoldeb yn y tymor hwy.

Question 7b: Sut/p'un a yw'r dull gweithredu o ran gwariant ataliol yn cael ei gynrychioli wrth ddyrannu adnoddau (Gwariant ataliol = gwariant sy'n canolbwyntio ar atal problemau a lliniaru'r galw am wasanaethau yn y dyfodol, drwy ymyrryd yn gynnar).

Mae tystiolaeth sylweddol yn dangos ei bod yn well yn ariannol i systemau atal, yn hytrach na thrin, afiechyd. Dangosodd [adolygiad systematig yn 2016](#) o'r enillion ar fuddsoddiad mewn ymyriadau iechyd y cyhoedd, **ar gyfartaledd, bod £14 yn cael ei ddychwelyd i'r gwasanaethau iechyd neu'r system ehangach am bob £1 a fuddsoddir mewn iechyd cyhoeddus**.

Mae'r argyfwng costau byw yn amlygu dwy brif her o ran buddsoddi mewn iechyd a llesiant. Yn gyntaf, **pa fuddsoddiadau y gellir eu gwneud yn awr er mwyn lliniaru'r heriau presennol yng Nghymru**. Er enghraifft, amcangyfrifir bod tai gwael yng Nghymru yn costio tuag [£1 biliwn](#) y flwyddyn i gymdeithas, gyda'r GIG yn ysgwyddo cyfran sylweddol o'r gost honno o ran y driniaeth ar gyfer cwmpiaadau a salwch anadlol. Fodd bynnag, mae ymyriadau iechyd cyhoeddus megis atal cwmpiaadau a gwella tai, sy'n costio [£584 miliwn](#), yn cynnig enillion cadarnhaol yn y tymor byr i'r tymor canolig (1-6 blynedd).

Yr ail her yw penderfynu **pa fuddsoddiadau y gellir eu gwneud yn awr i greu cymdeithas iachach, fwy cyfartal ac felly, un sy'n fwy gwydn i ymdopi â heriau'r dyfodol**. Mae effeithiau negyddol digwyddiadau fel yr argyfwng costau byw – a'r pandemig COVID-19 cyn hynny – yn arwyddocaol iawn oherwydd eu bod yn rhoi pwysau ar wendidau presennol, sef tldi ac annhegwch hirsefydlog yng Nghymru.

Mae'r argyfwng costau byw presennol yn creu cyd-destun anodd ar gyfer gwneud y buddsoddiadau angenrheidiol, gan fod **yr un pwysau economaidd sy'n effeithio ar unigolion hefyd yn effeithio ar gyllidebau'r sector cyhoeddus**. Mae sioc facro-economaidd fel yr argyfwng costau byw yn golygu bod heriau cyllido yn ystyriaeth flaenllaw i lawer o'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau. Serch hynny **buddsoddi mewn iechyd a llesiant yw'r peth iawn i'w wneud – mae'n achub bywydau ac yn arbed arian ac yn arwain at fanteision lluosog**. Yn wir, nododd [adolygiad o wario yn Lloegr yn 2016](#) y byddai toriadau o £200 miliwn i wasanaethau iechyd cyhoeddus o bosibl yn arwain at gost ychwanegol o tua £1.6 biliwn.

Yng Ngymru, rydym eisoes yn gwybod bod tldi a iechyd gwael sy'n digwydd o ganlyniad yn golygu bod pobl sy'n byw yn yr ardaloedd â'r amddifadedd mwyaf yng Nghymru yn defnyddio gwasanaethau ysbyty yn fwy na'r rhai mewn ardaloedd â'r amddifadedd lleiaf. Amcangyfrifodd Iechyd Cyhoeddus Cymru bod **mwy o ddefnydd o wasanaethau ysbyty oherwydd amddifadedd, neu iechyd gwael sy'n deillio o dlodi, yn costio £322 miliwn ychwanegol**

[y flwyddyn i'r GIG yng Nghymru](#), sy'n cyfateb i tua £1 ym mhob £12 (8.7%) sy'n cael eu gwario ar ysbytai yng Nghymru.

Gyda'i gilydd, mae'n amlwg **yn ogystal â mynd i'r afael â phryderon iechyd uniongyrchol, ei bod yn hanfodol bod penderfyniadau buddsoddi hefyd yn rhoi blaenoriaeth i fynd i'r afael ag achosion sylfaenol iechyd a llesiant gwael** er mwyn atal afiechyd y gellir ei osgoi a chreu cymdeithas iachach a mwy cyfartal.

Question 7c: Sut y dylid blaenoriaethu adnoddau i fynd i'r afael â rhestrau aros y GIG ar gyfer triniaethau GIG wedi'u cynllunio a thriniaethau nad ydynt yn rhai brys. A ydych yn meddwl bod gan Lywodraeth Cymru gynllun cadarn i fynd i'r afael â'r mater hwn?

Dylid ystyried sut y gall Cymru fabwysiadu dull teg o fynd i'r afael â heriau ac effaith amseroedd aros. **Nid yw anghenion gofal iechyd yn gyfartal ar draws y boblogaeth**, ac yng Nghymru mae cysylltiad agos rhwng y baich mwyaf o ran clefydau ag anfantais economaidd-gymdeithasol.

Yn y tymor byr, **mae rhestrau aros yn fan cychwyn clir** ar gyfer nodi unigolion a grwpiau o'r boblogaeth y mae angen gofal arnynt. Drwy ddefnyddio'r wybodaeth sydd ar gael o fewn y system gofal iechyd, mae gennym gyfle i flaenoriaethu a chynllunio ymyriadau cyfathrebu a gwasanaeth wedi'u teilwra er mwyn sicrhau'r effaith gadarnhaol orau bosibl.

Yn ogystal, mae angen inni chwilio ar yr un pryd am ffyrdd o **leihau'r galw yn y dyfodol am wasanaethau iechyd a gofal** drwy amrywiaeth o dulliau atal. Bydd hyn yn helpu i gyfyngu ar yr amser y mae GIG Cymru yn ymgymryd â'r ôl-groniad presennol o ran y rhestr aros yn ogystal â manteision tymor hwy o ran cydnorthedd gwasanaethau. Mae'r dulliau y gellid eu hystyried yn cynnwys cynyddu ymyriadau ataliol a darparu cymorth a gallu ychwanegol i wasanaethau gofal cymdeithasol a gofal sylfaenol a chymunedol.

Yn y tymor hwy, dylai elfen hanfodol o ymateb i'r galw cynyddol am ofal iechyd fod yn **'waith atal manwl'**: gweithredu ar lefel unigol neu grŵp (strata) sy'n galluogi mwy o gydnabyddiaeth gan unigolion eu bod yn gydgrewyr eu hiechyd eu hunain. Gallai ymyriadau gwella iechyd sy'n cael eu galluogi'n ddigidol ac sy'n seiliedig ar ymddygiad (gan gynnwys gwasanaethau, cymorth a chyfathrebu) adlewyrchu'r dull a ddefnyddir yn eang ac yn effeithiol mewn mannau eraill i gysylltu pobl â gwasanaethau y mae arnynt eu heisiau a'u hangen.

Question 7d: Cynaliadwyedd y GIG, gofal cymdeithasol, addysg bellach ac uwch, llywodraeth leol a gwasanaethau cyhoeddus eraill yn fwy cyffredinol. A yw Llywodraeth Cymru yn darparu cymorth digonol i'r sector cyhoeddus i'w alluogi i fod yn arloesol ac yn flaengar drwy bethau fel cynllunio'r gweithlu.

Bydd canlyniadau iechyd a llesiant gwael a achosir ac a waethygir gan yr argyfwng costau byw ac **anghydraddoldebau cynyddol** a'r yn cael **effaith negyddol ar y galw, costau ac ansawdd y gwasanaeth y GIG, gofal cymdeithasol, a gwasanaethau cyhoeddus eraill**.

Mae gweithwyr y GIG hefyd yn dioddef effeithiau negyddol yr argyfwng costau byw. Er enghraifft, canfu **arolwg diweddar gan Iechyd Cyhoeddus Cymru** fod gan dros hanner y nyrsys a bydragedd sgoriau llesiant meddyliol a oedd yn arwydd o iselder clinigol tebygol (31%) neu iselder ysgafn posibl (27%). Mae perygl y bydd hyn yn gwaethygu'r heriau presennol yn ymwneud â'r gweithlu ac yn cael sgil-ffeithiau ar y rhai ag anghenion gofal a chymorth.

Mae'r **effaith gronnu ar y galw ar y GIG** yn dod ar adeg pan fydd y gwasanaeth iechyd isoes yn wynebu ôl-groniad yn sgil y pandemig COVID-19. Golyga hyn, yn yr hirdymor, bod y galw am wasanaethau gofal iechyd yn debygol o barhau i fod yn fwy na gallu'r system i ymateb.

Mae'r argyfwng costau byw hefyd yn golygu bod pŵer gwario gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn cael ei leihau. Hynny yw, **mae'r GIG a gwasanaethau gofal cymdeithasol eu hunain yn wynebu costau cynyddol**, megis biliau ynni uwch ar gyfer ysbytai a chartrefi gofal, neu gostau trafndiaeth uwch sy'n effeithio ar y gallu i ddarparu gofal yn y gymuned. O ganlyniad, **bydd y system iechyd a gofal dan bwysau i ateb y galw cynyddol am wasanaethau ar yr un pryd ag y bydd eu darparu yn ddrutach** – a hynny pan fydd ei gyllideb yn cael ei chwtoegi mewn termau real.

Bydd ymdrechion parhaus i fynd i'r afael â heriau cyfredol y gweithlu gofal iechyd o ran hyfforddiant, recriwtio a chadw staff hefyd yn bwysig. Mae denu a chadw staff yn debygol o fod hyd yn oed yn fwy heriol ar ôl y pandemig, gan fod llawer o'r staff presennol yn adrodd am straen a gorweithio. Fodd bynnag, mae cynnal a chynyddu gweithlu sydd â staff priodol a medrus yn hanfodol i wasanaeth iechyd sy'n gweithio ac, felly, mae recriwtio pobl i yrfaeoddd gofal iechyd a fydd yn blaenoriaethu eu llesiant a'u boddhad swydd yn parhau'n hanfodol.

Question 7f: Cymorth i blant a phobl ifanc y mae'r pandemig wedi effeithio ar eu haddysg, datblygiad, iechyd meddwl a llesiant. A oes digon o fuddsoddiad seilwaith wedi'i dargedu at bobl ifanc?

Mae rhoi'r dechrau gorau mewn bywyd i bob plentyn yn hanfodol i greu Cymru iachach a mwy cyfartal, gan gydnabod y gall anfantais ddechrau cyn iddynt gael eu geni a chronni dros gwrs bywyd. O ganlyniad, dylai'r blociau adeiladu sy'n llywio iechyd meddwl a chorfforol plant a phobl ifanc, gan gynnwys addysg, eu hamgylcheddau byw a pherthnasoedd cymdeithasol, gael eu blaenoriaethu ar gyfer buddsoddiad.

Cwblhaodd Iechyd Cyhoeddus Cymru [Asesiad o'r Effaith ar Lesiant Meddyliol](#) i nodi effeithiau pandemig COVID-19 ar les meddwl pobl ifanc yng Nghymru. Nodwyd yr asesiad dylai liniaru effeithiau'r pandemig gyda buddsoddiad mewn:

- Sgiliau cymdeithasol, pherthnasoedd a lleihau unigedd cymdeithasol;
- Cydweithio;
- Cyfleoedd ar gyfer rolau gwerthfawr;
- Meithrin hunan-gred, hunaneffeithiolrwydd, hyder ac ymdeimlad o berthyn;
- Cydlyniant cymunedol; a
- Gweithgarwch corfforol.

Yn ogystal, nodwyd nifer o feysydd ar gyfer gweithredu mewn perthynas â chynnal a diogelu lles meddwl pobl ifanc drwy seilwaith. Roedd y rhain yn cynnwys:

- Datblygu lleoedd a gofodau sy'n cefnogi datblygiad corfforol a chymdeithasol pobl ifanc e.e. drwy darparu manau diogel i bobl ifanc gwrdd â chyfoedion dan do ac yn yr awyr agored.
- Tai sy'n darparu gofod mewnol digonol a mynediad i fannau awyr agored diogel,
- Buddsoddiad mewn sicrhau mynediad i fannau gwyrdd a naturiol awyr agored.
- Cymhwysiant digidol a mynediad cyfartal i wybodaeth a gwasanaethau ar-lein.
- Darparu mynediad at drafndiaeth fforddiadwy a theithio llesol fel galluogwr pwysig ar gyfer adferiad ac i gefnogi cyfranogiad a chynhwysiant pobl ifanc mewn addysg, cyflogaeth a bywyd cymdeithasol.

- Buddsoddi mewn celfyddydau cymunedol a chyfranogiad ieuenctid.

Yn ogystal, mae [Asesiad Risg Newid Hinsawdd](#) y DU a Chymru yn amlygu risgiau i ddarparu addysg sy'n deillio o newid hinsawdd sy'n gysylltiedig â gorboethi mewn ysgolion (e.e. rheoli tymheredd, nifer uchel o bobl yn yr ystafell ddosbarth, faint o offer technoleg gwybodaeth sydd, a chyfyngiadau dyluniad adeiladau ysgol hen a newydd). Mae'r risgiau hyn yn mynnu gweithredu pellach a buddsoddiad yn yr ystâd addysg i gynnal cydnherthedd o ran darparu addysg, diogelu iechyd, a darparu amgylchedd dysgu iach. Nododd y Asesiad Risg fod 51 o ysgolion yng Nghymru mewn perygl o lifogydd ar hyn o bryd, a rhagwelir y bydd cynnydd erbyn 2050 a 2080.

Question 7h: A yw cymorth i sefydliadau'r trydydd sector, sy'n wynebu galw cynyddol am wasanaethau o ganlyniad i'r argyfwng costau byw a'r pandemig, yn ddigonol?

Mae sefydliadau trydydd sector yn gweld eu cyllidebau yn mynd llai pell yn wyneb costau cynyddol. Ar yr un pryd, mae effaith yr argyfwng costau byw ar unigolion yn arwain at fwy o alw am wasanaethau.

Yn ystod y pandemig, chwaraeodd pobl ran hanfodol wrth helpu'r rhai mwyaf agored i niwed a helpu asiantaethau swyddogol drwy ddod yn rhan annatod o'r ymateb ehangach mwy ffurfiol i'r pandemig; gyda'r cymunedau eu hunain yn aml yn fwyaf gwybodus am anghenion eu cymuned eu hunain a sut i'w diwallu, a chyda chysylltiadau ac ymddiriedaeth sefydledig.

Nodwyd [ymchwil gan Iechyd Cyhoeddus Cymru](#) dair elfen allweddol i alluogi a chynnal gweithredu dan arweiniad y gymuned yng Nghymru. Y rhain oedd:

- Deall asedau cymunedol a ffactorau lle
- Integreiddio gweithredu dan arweiniad y gymuned i'r system ehangach
- Galluogi'r amodau sy'n ysgogi tegwch iechyd.

Gallai harneisio'r cynnydd mewn gweithredu dan arweiniad y gymuned yn ystod yr ymateb i'r pandemig fod yn allweddol i adeiladu cymunedau mwy cydnherth ledled Cymru, sy'n gallu ymateb yn well i effaith barhaus y pandemic mewn ymdrechion adfer (ar gyfer cymunedau cyfan ac ar gyfer y rhai sydd eisoes dan anfantais) ac addasu i argyfyngau yn y dyfodol (boed hynny'n glefyd heintus, newid hinsawdd, neu heriau economaidd). Ond, mae angen i gymunedau dderbyn yr adnoddau sydd eu hangen arnynt i ddarparu'r mathau hyn o wasanaethau.

Gall cysylltu dinasyddion â chymorth cymunedol, a ddarperir yn aml gan y trydydd sector, [alluogi pobl](#) i reoli eu hiechyd a'u llesiant yn well. Er ei fod yn gyffredin ledled Cymru, mae'r ddarpariaeth bresennol yn [amrywio](#) o ran maint a math o weithgarwch. Bydd cyflwyno [fframwaith](#) presgripsiynu cymdeithasol Cymru gyfan yn 2023 – y mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi bod yn cefnogi ei ddatblygiad – yn gwella cysondeb.

Question 7i: Beth yw'r cyfleoedd allweddol i fuddsoddiad y Llywodraeth gefnogi 'ailgodi'n gryfach' (h.y. cefnogi economi a gwasanaethau cyhoeddus sy'n cyflawni'n well yn erbyn y nodau llesiant yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol)?

Cafodd ein profiad o'r pandemig COVID-19 ei lywio'n sylweddol gan y tloidi a'r anghydraddoldeb hirsefydlog yng nghymdeithas Cymru. Mae'r argyfwng costau byw yn rhoi pwysau pellach ar yr

un gwendidau. Mae angen ymdrech unedig, gydgysylltiedig os ydym am leihau'r bwlch iechyd annheg yng Nghymru a chreu economi a chymdeithas sy'n canolbwyntio ar iechyd, llesiant a chydarddoldeb, sy'n rhoi Cymru ar sylfaen gadarnach i wynebu'r heriau a all fod o'n blaenau.

Drwy fanteision ar y ffocws o'r newydd ar anghydraddoldebau iechyd, mae potensial i elwa o fanteision hollbwysig yn y tymor hwy yn ogystal ag yn yr argyfwng presennol.

Mae gwneud cynnydd yn golygu meddwl a chynllunio ar gyfer yr hirdymor a throi'r dystiolaeth ar fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd yn gamau ymarferol.

Yn adolygiad arloesol Marmot, [Fair Society, Healthy Lives](#), amlinellir fframwaith yn seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer camau gweithredu i leihau'r bylchau annheg mewn iechyd a llesiant ar draws y boblogaeth. Amlygodd ddau amcan polisi trosfwaol:

- 1) **Sicrhau bod cyfiawnder cymdeithasol, iechyd a chynaliadwyedd wrth wraidd polisiau;** a
- 2) **Creu cymdeithas alluogol sy'n gwneud y mwyaf o botensial unigolion a chymunedau.**

Mae cyflawni'r amcanion hyn yn golygu **ailystyried y dull o wneud penderfyniadau mewn meysydd polisi sy'n creu'r conglfeini ar gyfer bywyd iach**, fel cyflogaeth, addysg, incwm, tai, yr amgylchedd a ffactorau cymunedol. Mae'r adolygiad hefyd yn nodi'n glir bod angen sicrhau mai **rhoi'r dechrau gorau mewn bywyd i bob plentyn** yw'r flaenoriaeth bennaf, gan sicrhau bod eu hanghenion a'u hawliau'n cael eu diwallu, a chydabod y gall anfantais ddechrau cyn iddynt gael eu geni a chronni dros gwrs bywyd.

Yng Nghymru, rydym yn ffodus bod gennym Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, sy'n darparu mecanwaith clir ar gyfer cyflawni'r amcanion polisi hyn. Mae cynnydd tuag at bob un o'r saith nod llesiant yn gysylltiedig â chynnydd ar wella'r conglfeinio ar gyfer bywyd iach sy'n sail i anghydraddoldebau iechyd.

Gan edrych i'r dyfodol, gwyddom oni chymerir camau yn awr, y bydd mwy o heriau sydd â'r potensial i waethygu'r anghydraddoldebau presennol ymhellach. Er enghraifft, canfu [ymchwil](#) a gynhyrchwyd ar y cyd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru, Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru a Phrifysgol Caerdydd sy'n archwilio effeithiau posibl y boblogaeth sy'n heneiddio, y newidiadau mewn natur gwaith yn sgil mwy o awtomeiddio, a newid yn yr hinsawdd, fod anghydraddoldebau presennol yng Nghymru mewn perygl o barhau i'r dyfodol oni bai eu bod yn cael sylw penodol. Mae hyn yn cynnwys mynd ati i hybu iechyd a thegwch ar draws pob maes datblygu polisi.

Byddai cymdeithas sy'n canolbwyntio'n llwyr ar alluogi iechyd a llesiant hefyd yn rhoi blaenoriaeth i lesiant yn ei phenderfyniadau economaidd – **'[Economi Llesiant](#)'**.

Ymateb a baratowyd gan:

- Manon Roberts, Uwch Swyddog Polisi [REDACTED]
- Louisa Petchey, Uwch Arbenigwr Polisi
- Eurgain Powell, Rheolwr Rhaglen Datblygu Cynaliadwy
- Nerys Edmonds, Prif Swyddog Datblygu Asesiad Effaith Iechyd
- Sumina Azam, Ymgynghorydd mewn Iechyd y Cyhoedd, Polisi, Ymchwil a Datblygiad Rhyngwladol
- Jo Peden, Ymgynghorydd mewn Iechyd y Cyhoedd